# Neath Port Talbot Wildlife Walks
## Llwybrau Bywyd Gwyllt yng Nghastell-nedd Port Talbot

Afan and Corrwg Valleys Walk / Taith Gerdded Cymoedd Afan a Chorrwg



# Afan and Corrwg Valleys Walk
# Taith Gerdded Cymoedd Afan a Chorrwg

A long distance walk surrounded by the forest covered hills of the Afan Valley. The walk takes you close to the Glyncorrwg Ponds that are a haven for anglers and wildlife alike. Look out for the Cymmer Viaduct which was closed in 1970.

Taith gerdded bell wedi'i hamgylchynu gan fryniau coediog Cwm Afan. Mae'r daith yn eich cymryd yn agos at Byllau Glyncorrwg sy'n hafan i bysgotwyr ac i fywyd gwyllt. Cadwch lygad allan am Draphont y Cymer a gaewyd ym 1970.


Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Neath Port Talbot County Borough
Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

NPT Biodiversity
It's our nature
Ein natur ni
Bioamrywiaeth CNPT

ENVT1127

A variety of plants and animals can be seen in the varying habitats along the route; with amphibians such as toads travelling to the ponds in early spring and plants such as Bell Heather putting on a colourful show in early summer.

## Key species to see:

**Grass Snake** – This non-poisonous snake can be easily identified by its yellow neck collar and olive green body. You may be able to see it basking after a meal of amphibians. They can be seen during the spring and summer months but they hibernate during the winter.

**Pyramidal Orchid** – This orchid gets its name from its pink or pale purple flowers which form a conical or pyramid shape. This orchid relies on a specific fungus in the soil to be able to flower so it may take a number of years for it to put on a full display.



Grass Snake / Neidr y Glaswellt © Barry Stewart

Gellir gweld amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid mewn cynefinoedd amrywiol ar hyd y llwybr, gydag amffibiaid fel llyffantod yn teithio i'r pyllau ddechrau'r gwanwyn a phlanhigion fel Clychau'r Grug yn lliwgar ddechrau'r haf.

## Rhywogaethau allweddol i'w gweld:

**Neidr y Glaswellt** – Gellir adnabod y neidr anwenwynig hon yn hawdd oherwydd y goler felen ar ei gwddf a'i chorff gwyrddfelen.  Efallai y gallwch ei gweld yn torheulo ar ôl pryd o amffibiaid.  Gellir eu gweld yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf, ond maent yn gaeafgysgu yn ystod y gaeaf.

**Tegeirian Bera** – Daw enw'r tegeirian hwn o'i flodau pinc neu borffor sy'n ffurfio siâp côn neu byramid.  Mae'r tegeirian yn dibynnu ar ffwng benodol yn y pridd i flodeuo, felly gall gymryd nifer o flynyddoedd iddo flodeuo'n llawn.



Pyramidal Orchid / Tegeirian Bera © Charles Hipkin

## Further Information and Contacts

For further information on accessing the countryside and public rights of way visit the countryside pages on **www.npt.gov.uk/countrysideaccess** or telephone **01639 686868.**

For further information on the wildlife of Neath Port Talbot please visit **www.npt.gov.uk/biodiversity** or telephone **01639 686149.**

For other places to visit in Neath Port Talbot visit **www.visitnpt.co.uk**

## Gwybodaeth a Chysylltiadau Ychwanegol

Am fwy o wybodaeth am gael mynediad i ardaloedd gwledig ac am hawliau tramwy, ewch i dudalennau cefn gwlad ein gwefan **www.npt.gov.uk/countrysideaccess** neu ffoniwch **01639 686868.**

Am fwy o wybodaeth am fywyd gwyllt yng Nghastell-nedd Port Talbot, ewch i **www.npt.gov.uk/biodiversity** neu ffoniwch **01639 686149.**

I gael manylion am leoedd eraill i ymweld â hwy yng Nghastell-nedd Port Talbot, ewch i **www.visitnpt.co.uk**



Viaduct / Traphont

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Afan and Corrwg Valleys Walk

## Taith Gerdded Cymoedd Afan a Chorrwg


**Start point**

**Length:** Approx. 5 miles /8km.
Allow a minimum of 3 hours (includes return journey).
**Difficulty:** Easy
**Directions to start:** On the A4107 from Port Talbot turn left at Cymmer, signposted to Glyncorrwg. Follow the road for about 2 miles and then turn left for the Glyncorrwg Ponds. Parking is available at the visitor's centre.
**Grid Reference:** SS872 984
**Nearest Town:** Port Talbot
**OS Map:** 166
**Habitat:** Ponds, Conifer Plantation, Grassland

**Follow:**
**Dilynwch:**

**Man cychwyn**

**Hyd:** Tua 5 milltir/8km.
Caniatewch o leiaf 3 awr (mae'n cynnwys y daith yn ôl).
**Her:** Hawdd
**Cyfeiriadau i ddechrau:** Ar yr A4107 o Bort Talbot, trowch i'r chwith yn y Cymer, lle mae arwydd i Lyncorrwg. Dilynwch y ffordd am tua 2 filltir a throwch i'r chwith i Byllau Glyncorrwg. Mae lle parcio ar gael yn y ganolfan ymwelwyr.
**Cyfeirnod Grid:** SS872 984
**Y Dref Agosaf:** Port Talbot
**Map yr AO:** 166
**Cynefin:** Pyllau, Planhigfa Gonwydd, Glaswelltir




0 — 500 metres/metr
0.3 miles/milltir

© Crown copyright and database rights 2011 Ordnance Survey 100023392
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011 Arolwg Ordnans 100023392